

Cymun Bendigaid ar Gân

**Diolchgarwch y Cynhaeaf**

1 Hydref 2023 am 9.15am

**Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor**

Saint Deiniol's Cathedral in Bangor

# *Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.*

Rydych chi'n sefyll rwan lle safodd Deiniol bron i fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn 525, bu iddo gynnull o'i gwmpas gymuned lawn ffydd, gobaith a chariad, gan godi o'i chwmpas ffens gyll–y **bangor** gwreiddiol–iddi'n gysgod ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch chwithau, hefyd, eich cofleidio yma gan yr un ffydd, gobaith a chariad a gyhoeddir gennym heddiw ac sy'n ein cyfareddu o hyd.

# *Yn Cymun hwn...*

**Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i Waed ef gyda ni.**

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn yn paratoi ein hunain i gwrdd â Christ trwy gyffesu ein pechodau – y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw yn ein bywydau – ac yn derbyn gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwrando ar ddarlleniadau o'r Beibl, gan ganfod yno arweiniad, her, cysur a newydd da gan Dduw. Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i Dduw ein gweddi dros bawb mewn angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw, byddwn yn cymryd bara a gwin, byddwn yn gofyn am fendith gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r bara, ac – fel aelodau o Gorff toredig, trwsiedig Crist – byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth inni dderbyn bendith Duw, yn gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf, neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i bawb.

## Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrio yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

## Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

## Plant a theuluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â thema'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

## O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

**Buchedd Bangor** yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

**Buchedd Bangor**

**O'r Ddarllenfa**
**From the Lectern**

# Trefn y gwasanaeth

Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch

## Cynnull

**Emyn**



**Nef a daear, tir a môr
sydd yn datgan mawl ein Iôr:
fynni dithau, f'enaid, fod
yn y canol heb roi clod?**

**Gwena'r haul o'r cwmwl du
er mwyn dangos Duw o'n tu;
dywed sêr a lleuad dlos
am ei fawredd yn y nos.**

**Gwellt y maes a dail y coed
sy'n ei ganmol ef erioed;
popeth hardd o dan y nef,
dyna waith ei fysedd ef.**

**Rhyfedd wyt, O Dduw, bob awr
yn egluro d'allu mawr:
wrth dy draed, O dysg i mi
beth wyf fi, a phwy wyt ti.**

**Geiriau**
Joachim Neander (1650-1680)
**Cyfieithiad**
Elfed (Howell Elvet Lewis, 1860-1953)
**Cerddoriaeth | "Monkland"**
Johann Anastasius Freylinghausen (1670-1739)

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

## Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.
**Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

"Bloeddiwch mewn gorfoledd i Dduw, yr holl ddaear; canwch i ogoniant Duw; rhowch foliant gogoneddus."

## Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ni â'n gelwir i ddilyn ôl-troed santeiddrwydd,

ni sy'n anwadl ar y daith,

ni sydd angen buchedd y saint yn ganllaw,
a'u gweddïau'n gynhaliaeth gyson.

Dad nefol,
**yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,**
**a heb wneud yr hyn a ddylem.**
**Mae'n wir ddrwg gennym,**
**ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**
**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,**
**maddeua inni'r cwbl a aeth heibio**
**ac arwain ni yn ei ffordd ef**
**i gerdded fel plant y goleuni.**
**Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthych,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.
**Amen.**

Parhawn ar ein traed

## Gloria in excelsis Deo

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw. Ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd. Moliannwn di, bendithiwn di, addolwn di, gogoneddwn di, diolchwn i ti am dy fawr ogoniant. Arglwydd Dduw, Frenin nefol, Dduw Dad Hollalluog. O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist; O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad, sy'n dwyn ymaith bechod y byd, trugarha wrthym; tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad, derbyn ein gweddi. Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd; ti yn unig yw'r Arglwydd; ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân, sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.

**Cerddoriaeth**
**Cymun Bangor**, Gareth Glyn

Parhawn ar ein traed

## Gweddi Gasgl


Gweddïwn.

Hollalluog a thragwyddol Dduw, sy'n coroni'r flwyddyn â'th ddaioni, ac yn rhoddi inni ffrwythau'r ddaear yn eu tymor: dyro i ni galonnau diolchgar, fel y defnyddiwn dy roddion yn unol â'th ewyllys; trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.
**Amen.**

Eisteddwn

# Gair

## Salmyddiaeth



℣ Llawenfloeddiwch i'r Goruchaf, holl eithafion daear lawr.

℟ **Llawenfloeddiwch i'r Goruchaf,
holl eithafion daear lawr.**

Bloeddiwch mewn gorfoledd i Dduw, yr holl ddaear;

canwch i ogoniant Duw; rhowch foliant gogoneddus.

℟ **Llawenfloeddiwch i'r Goruchaf,
holl eithafion daear lawr.**

Dywedwch wrth Dduw, "Mor ofnadwy yw dy weithredoedd! Gan faint dy nerth ymgreinia dy elynion o'th flaen;

y mae'r holl ddaear yn ymgrymu o'th flaen, ac yn canu mawl i ti, yn canu mawl i'th enw."

℟ **Llawenfloeddiwch i'r Goruchaf,
holl eithafion daear lawr.**

Dewch i weld yr hyn a wnaeth Duw; y mae'n ofnadwy yn gweithredu tuag at bobl.

Gwaeddais ar Dduw â'm genau, ac yr oedd moliant ar fy nhafod.

℟ **Llawenfloeddiwch i'r Goruchaf,
holl eithafion daear lawr.**

Ond yn wir, gwrandawodd Duw, a rhoes sylw i lef fy ngweddi.

Bendigedig fyddo Duw am na throdd fy ngweddi ymaith, na'i ffyddlondeb oddi wrthyf.

℟ **Llawenfloeddiwch i'r Goruchaf,
holl eithafion daear lawr.**

**Salm 66:1-5, 17, 19-20**
**Cerddoriaeth**
Simon Ogdon

## Darlleniad

Darlleniad o Lyfr Genesis.


Yn y dyddiau hynny: Arhosodd Noa eto saith diwrnod; anfonodd allan y golomen, ond ni ddaeth yn ôl ato y tro hwn. Yn y flwyddyn chwe chant ac un o oed Noa, yn y mis cyntaf, ar y dydd cyntaf o'r mis, sychodd y dyfroedd oddi ar y ddaear; a symudodd Noa gaead yr arch, a phan edrychodd allan, gwelodd wyneb y tir yn sychu. Erbyn yr ail fis, ar y seithfed dydd ar hugain o'r mis, yr oedd y ddaear wedi sychu. Yna llefarodd Duw wrth Noa, a dweud, "Dos allan o'r arch, ti a'th wraig a'th feibion a gwragedd dy feibion gyda thi; a dwg allan gyda thi bob creadur byw o bob cnawd, yn adar ac anifeiliaid a phopeth sy'n ymlusgo ar y ddaear, er mwyn iddynt epilio ar y ddaear, a ffrwytho ac amlhau ynddi." Felly aeth Noa allan gyda'i feibion a'i wraig a gwragedd ei feibion; hefyd aeth allan o'r arch bob bwystfil, pob ymlusgiad, pob aderyn a phob peth sy'n ymlusgo ar y ddaear, yn ôl eu rhywogaeth. Yna adeiladodd Noa allor i Dduw, a chymryd rhai o bob math o'r anifeiliaid glân ac o'r adar glân, ac offrymu poethoffrymau ar yr allor. A phan glywodd Duw yr arogl hyfryd, dywedodd Duw o ddyfnder calon, "Ni felltithiaf y ddaear mwyach o achos y ddynoliaeth, er bod gogwydd eu meddwl yn ddrwg o'u hieuenctid; ni ddifethaf eto bopeth byw fel y gwneuthum. Tra pery'r ddaear, ni pheidia pryd hau a medi, oerni a gwres, haf a gaeaf, dydd a nos."

Clywch air bywyd i'n byd.
**Diolch a fo i Dduw.**

**Genesis 8:12-22**

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys

## Efengyl



℣ Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.** ℣ Tra pery'r ddaear, ni pheidia pryd hau a medi. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.** ℣ Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Ioan.
**Gogoniant i ti, O Grist.**

Bryd hynny: Meddai Iesu wrth ei ddisgyblion, "Myfi yw'r wir winwydden, a'm Tad yw'r gwinllannwr. Y mae ef yn torri i ffwrdd bob cangen ynof fi nad yw'n dwyn ffrwyth, ac yn glanhau pob un sydd yn dwyn ffrwyth, er mwyn iddi ddwyn mwy o ffrwyth. Yr ydych chwi eisoes yn lân trwy'r gair yr wyf wedi ei lefaru wrthych. Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chwi. Ni all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun, heb iddi aros yn y winwydden; ac felly'n union ni allwch chwithau heb i chwi aros ynof fi. Myfi yw'r winwydden; chwi yw'r canghennau. Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim. Os cadwch fy ngorch-mynion fe arhoswch yn fy nghariad, yn union fel yr wyf fi wedi cadw gorchmynion fy Nhad, ac yr wyf yn aros yn ei gariad ef. Yr wyf wedi dweud hyn wrthych er mwyn i'm llawenydd i fod ynoch, ac i'ch llawenydd chwi fod yn gyflawn. Dyma fy ngorchymyn i: carwch eich gilydd fel y cerais i chwi. Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod rhywun yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion. Yr ydych chwi'n gyfeillion i mi os gwnewch yr hyn yr wyf fi'n ei orchymyn ichwi. Nid wyf mwyach yn eich galw yn weision, oherwydd nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud. Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion, oherwydd yr wyf wedi gwneud yn hysbys i chwi bob peth a glywais gan fy Nhad. Nid chwi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chwi, a'ch penodi i fynd allan a dwyn ffrwyth, ffrwyth sy'n aros. Ac yna, fe rydd y Tad i chwi beth bynnag a ofynnwch ganddo yn fy enw i. Dyma'r gorchymyn yr wyf yn ei roi i chwi: carwch eich gilydd."

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.
**Moliant i ti, O Grist.**

**Ioan 15:1-5, 10-17**

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

## Pregeth yn y gyfres “Pryd y’th welsom di?”

### Crist yn y winllan

Yng Nghrist daeth Duw’n Ymgnawdoledig – ei osod mewn preseb, ei gamre hyd heolydd Galilea, dan hoelion ar Groes, yn atgyfodedig yn ei gnawd. Y Crist Ymgnawdoledig yw’n datguddiad byw o Dduw’r Creawdwr, cynhaliwr gweithredol a pharhaus yr holl Greadigaeth, popeth sydd. Mae lleoedd a thirweddau’r Cread yn chwarae rhan bwysig yn yr Ysgrythur ac yn y dychymyg Cristnogol, yn union fel y mae ein cymunedau a’n cynefinoedd ni’n rhoi cig a gwaed i ffydd, gobaith a chariad ein bywydau beunyddiol ninnau. Mae’r gyfres bregethu hon yn arsylwi ar rai o’r lleoedd a’r cynefinoedd hynny lle gwelwn Dduw ar waith, ac sy’n parhau i ddatgelu i ni ddirgeledd “Duw gyda ni.”

**Yr Is-Ddeon**

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

## Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,**
**a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,**
**a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,**
**sy’n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,**
**✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.**
**Amen.**

Ar derfyn y Credo, eisteddwn

## Cyflwyno'r Wenwisg i Goryddion

*Caiff y rhai sydd i dderbyn y Wenwisg eu dwyn ymlaen gan y Cyfarwyddwr Cerdd a Phennaeth Datblygu'r Côr, a'u cyflwyno gan y Cyfarwyddwr Cerdd*

Bobl Cadeirlan Deiniol Sant, cyflwynaf i chi Lawrence a Catryn, sydd wedi cwblhau eu cyfnodau prawf ac sydd bellach yn barod i gael eu derbyn fel Coryddion yng Nghôr ein Cadeirlan.

Ydych chi am fod yn un o Goryddion Côr y Gadeirlan hon?
***Ydw.***

A wnewch chi feithrin eich doniau, a'u hoffrymu er gogoniant i Dduw?
***Gwnaf.***

Yng ngwasanaeth y fangre sanctaidd hon, a fyddwch chi'n barchus, yn ffyddlon ac yn weddigar?
***Byddaf.***

Gweddïwn.

Hollalluog Dduw, awdur pob rhyfeddod a hyfrydwch, a elwaist dy wasanaethyddion dros fôr y canrifoedd i ganu mawl i ti yn y fangre hon; tywallt roddion dy Ysbryd Glân ar y rhai hyn ger dy fron heddiw, gan lenwi eu calonnau â'th gariad a'u genau â'th gân, fel y cyhoeddir dy ogoniant yn y ddinas hon a thrwy'r holl greadigaeth; yn Enw Sanctaidd Crist.
**Amen.**

*Caiff y Gwenwisgoedd eu didoli gan Bennaeth Datblygu'r Côr*

Lawrence a Catryn, ar ran Cabidwl a Phobl Cadeirlan Deiniol Sant, rwy'n eich derbyn fel Coryddion yng Nhôr y Gadeirlan. Bydded Duw, awdur nefoedd a daear, yn gynhaliaeth i chi o'r bryniau, fel y bo'ch camre'n gadarn a'ch ffyrdd yn union; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo arnoch yn awr ac a drigo gyda chwi yn wastad.
**Amen.**

## Sefydlu Ysgolheigion

Caiff y rhai i'w sefydlu eu dwyn ymlaen a'u cyflwyno gan y Cyfarwyddwr Cerdd

Bobl Cadeirlan Deiniol Sant, cyflwynaf i chi Enfys, George, Hannah, Holly, Jonathan, Katherine, Nemo, Sarah, Seb a Timothy, sydd wedi'u penodi'n Ysgolheigion y Gân eleni, a Sam, sydd wedi'i benodi'n Ysgolhaig yr Organ eleni.

Gweddïwn.

O Dduw, y mae saint ac angylion yn ymhyfrydu d'addoli yn y nefoedd, bydd bresennol fyth â'th wasanaethyddion sydd, trwy gynghanedd a cherddoriaeth, yn perffeithio'r clodydd a offrymir gan dy greadigaeth is y rhod; a chaniatá iddynt hyd yn oed yn awr gipolwg o'th wynfyd, a'u gwneud yn deilwng yn yr oes a ddaw o'u rhan ym moliant diderfyn dy dragwyddoldeb; yn Enw Sanctaidd Crist.
**Amen.**

Caiff y rhai i'w sefydlu eu harwain i Seddau'r Côr gan y Cyfarwyddwr Cerdd

Enfys, George, Hannah, Holly, Jonathan, Katherine, Nemo, Sarah, Seb, Timothy a Sam, ar ran Cabidwl a Phobl Cadeirlan Deiniol Sant, rwy'n eich sefydlu'n Ysgolheigion y Gân a'n Ysgolhaig yr Organ yng Nhôr y Gadeirlan. Bydded Duw'n gysgod yn eich hymyl i'ch henaid, gan warchod ein myned a'ch dyfod bob dydd; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo arnoch yn awr ac a drigo gyda chwi yn wastad.
**Amen.**

Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn

# Cymun

## Emyn



**Mae grasusau heb eu haeddu**
**ar ein bwrdd o hyd yn llawn,**
**a chysuron yn diferu**
**ar ein lwybrau, llawenhawn!**
**Nid oes prinder yn ein dilyn,**
**y mae môr tu cefn i'r ffrwd;**
**Duw sydd yn coroni'r flwyddyn,**
**ac sydd yn bendithio'i chnwd.**

**Coed y maes sy'n curo dwylo,**
**bloeddiant ganu dan eu llwyth;**
**a fydd calon dyn yn ddistaw**
**wrth fwynhau y grasol ffrwyth?**
**Mae canghennau ffrwythlon natur**
**yn ymgrymu tua'r llawr,**
**ac yn dysgu i bechadur**
**gofio Duw rhagluniaeth fawr.**

**Nid y ddaear fu'n cynllunio**
**coron hardd y flwyddyn hir;**
**cariad dwyfol sy'n disgleirio**
**ym mhob perl ohoni'n wir;**
**tyfodd gobaith blwyddyn newydd**
**gyda'r grawn, a digon yw;**
**na foed ein telynau'n llonydd,**
**canwn, ac addolwn Dduw.**

**Geiriau**
Dyfed (Evan Rees; 1850-1923)
**Cerddoriaeth | "Rustington"**
Charles Hubert Hastings Parry (1848-1918)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

## Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.
**Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.**

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.
**Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.**

## Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Dyrchefwch eich calonnau.
**Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.**

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
**Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.**

Iawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Ac yn awr rhoddwn ddiolch i ti, oherwydd ynddo ef, ein Harglwydd atgyfodedig, deuir â'r nefoedd newydd a daear newydd i berffeithrwydd, adnewyddir byd drylliedig, a chaiff y greadigaeth hithau ei rhyddhau a'i dwyn i ryddid a gogoniant plant Duw.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn Enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

**Cerddoriaeth**
**Cymun Bangor**, Gareth Glyn

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Cyhoeddwn ddirgeledd y ffydd.

**Bu farw Crist.**
**Atgyfododd Crist.**
**Daw Crist mewn gogoniant.**

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deuwn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewydda ni a phawb y gweddïwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.
✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

## Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddïwn yn hyderus:

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.**

## Tangnefedd

Rwyt ti, O Dduw, yn gweu ynghyd dy etholedigion
yn un cymundeb a chymdeithas yn nirgel Gorff dy Fab;
ei Gorff torredig, gogoneddus yn gyflawn mewn tangnefedd.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

*Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn*

## Torri

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

**Cerddoriaeth**
**Cymun Bangor**, Gareth Glyn

## Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.
**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,**
**ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

*Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed*

## Motét

Ymagor yn ei freuder
ym mhoethder Awst y mae:
nid oes un mefl i'w harddwch,
nid oes i'w degwch staen;
agor yn wawr synhwyrus
a'i lendid oll o'n blaen.

Cochni fel caeau echnos
dan fachlud hwyrnos haf,
a lliw fel gwaedliw'r lleuad
yn sglein yr hafnos glaf
a fedd yn Awst, yn ystod
byrhoedledd dyddiau braf.

Â'i harddwch ni chyffryrddwn
rhag ofn i'n bysedd crin
faeddu ei holl ryfeddod,
rhag ofn, yn nhrymdra'r hin,
i lygaid ei halogi,
i drem andwyo'i rin.

Anhygyrch yw ei degwch,
harddwch anghyrraedd yw;
os awn, gan geisio ennyd
lân uwch baweiddra'n byw,
yn agos at y rhosyn,
eisoes mae'n rhosyn gwyw.

Er ffrwydro drwy'r synhwyrau,
yr ias nid yw'n parhau;
a'r rhosyn, wedi'r cyffro,
yn gwywo a llesgau,
try mwyder Awst yn dristwch
uwch ei brydferthwch brau.

Yng nghanol llwydni bywyd
mae ambell ennyd awr
o weld, o glai'n marwoldeb,
degwch uwch llwch y llawr,
fel gwel rhyfeddod blodyn
y rhosyn gyda'r wawr.

**Geiriau**
Alan Llwyd
**Cerddoriaeth**
Joe Cooper
**Cyfansoddwyd y motét ar gyfer Côr y Gadeirlan a'i pherfformio am y tro cyntaf ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2023**

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn



Pan dorro'r wawr dros ael y mynydd llwm,
pan euro'r haul las erwau llawr y cwm,
pan byncia'r adar gân yn gynnar gôr
mi ganaf innau fawl i'r Arglwydd Iôr.

Pan welaf wên ar wedd blodeuyn hardd,
pan welaf wyrth aeddfedrwydd ffrwythau'r ardd,
pan glywaf su aur donnau'r meysydd ŷd
mi ganaf innau fawl i Grëwr byd.

Pan ddelo'r hwyr a'i gwrlid dros y byd
a'r lloer a'i llewyrch llon yn gwylio'i grud,
wrth fynd i gysgu, am gael bod yn fyw,
mi ganaf innau fawl i'r Arglwydd Dduw.

**Geiriau**
Glyndwr Richards (1920-1996)
**Cerddoriaeth | "Caryl"**
Rhys Jones (1927-2015)

Parhawn ar ein traed

# *Ymadael*

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Bydded i Dduw, ffynhonnell pob daioni, inni'n lwybr a chydymaith ar y daith, er mwyn inni ofalu am greadigaeth dda Duw a dwyn ffrwyth cyfiawnder yn ein buchedd; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.
**Amen.**

Awn ymaith mewn tangnefedd.
**Yn Enw Crist. Amen.**

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

**Offrymddarn ar yr organ**
**Alaw Tiwba**, Craig Sellar Lang (1891-1971)

# Hysbys

## 1 Hydref 2023

Yn y Gosber ar Gân am 3.30pm heddiw, bydd Archddiaconiaid, Canoniaid a chlerigion newydd yn cael eu gosod yn eu seddau ym mhresenoldeb Archesgob Cymru. Yn ogystal, bydd ein Darpar Gaplan Prifysgol a Chymunedol, y Tad Neville Naidoo, yn cael ei osod.

Mae croeso mawr i bawb yn y gwasanaeth, a fydd yn cael ei ddilyn gan dderbyniad gwin – ymunwch â ni ar gyfer y dathliad hapus hwn o fywyd ein Cadeirlan a'n hesgobaeth.

## Cinio Dewch a Rhannu

Cynhelir ein dau Ginio Dewch a Rhannu nesaf am 12.15pm, yn dilyn y Choral Holy Eucharist, ar 29 Hydref ac 17 Rhagfyr. Mae'n Cinio Dewch a Rhannu yn gyfle am sgwrs, difyrrwch, croeso a charedigrwydd. Gwahoddir pawb; ac os hoffech awgrymiadau am fwyd i'w ddwyn, siaradwch â Canon Jane Coutts.

## Datganiadau Paned

Pob dydd Iau
11.15am am 45 munud
Paned a chacen o 10.45am

Ymunwch â ni i fwynhau'r perfformiadau cerddorol eithriadol hyn, o safon uchel ac yn rhad ac am ddim bob bore Iau.

**5 Hydref | Tom Lilburn** | Gwrthdenor

**12 October | Cantorion o Opera Cenedlaethol Cymru**

## Tarannon

Gŵyl Cred a'r Celfyddydau
12-15.10.2023

Rydym yn falch iawn bod **Tarannon**, Gŵyl Cred a'r Celfyddydau newydd y Gadeirlan, yn cael ei lansio ym mis Hydref eleni. Rhwng 12 Hydref a 15 Hydref, byddwn yn cynnal pedwar diwrnod prysur, gyforiog o gerddoriaeth, barddoniaeth, celf, hanes, addoliad, trafodaeth a sgwrs yng nghanol y ddinas.

Ceir manylion llawn, a thocynnau i'w prynu, o'r cod QR isod.

# Yr wythnos

## Heddiw | Today

**3.30pm** Gosber ar Gân â Gosod Archddiaconiaid, Canoniaid a Chlerigion | Choral Evensong with the Installation of Archdeacons, Canons & Clergy

Ymatebion | Responses, Clucas; Gwasanaeth Hwyrol yn C | Evening Service in C, Kelly; Duw Rydd i'm Gymorth | My Help Comes From God, Mills

## Dydd Llun | Monday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Mawrth | Tuesday

**9.00am** Camau Bach

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Mercher | Wednesday

**11.00am** Dathliad o Hanner Canrif Gefeillio Bangor a Soest | A celebration of the 50th Anniversary of the Twinning of Bangor and Soest

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Iau | Thursday

**11.15am** Datganiad | Recital

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**2.00pm | Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Gwener | Friday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Sadwrn | Saturday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## 8 Hydref | Y Deunawfed Sul wedi'r Drindod
## 8 October | The Eighteenth Sunday after Trinity

**8.15am** Holy Eucharist

**9.15am** Cymun Bendigaid ar Gân

**Yr Canon dros Fywyd Cynulledifaol yn pregethu** ar y thema **Crist yn y Deml**

Missa l'hora passa, Viadana; Os cherwch fi, Tallis; Offrymddarn yn C fwyaf, Linley

**11.00am** Choral Holy Eucharist

**The Very Revd Prof. Gordon McPhate preaching** on the theme **Christ in the Temple**

Mass for Four Voices, Byrd; Ubi caritas, Duruflé; Prelude & Fugue in C major, BWV 545, Bach

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Gwasanaeth Hwyrol yn D | Evening Service in D, Dyson; God so loved the world, Stainer; Tocata | Toccata, Dubois

# Ein gweddi

**Yn glâf** Joy Levine, offeiriad; John Watkin Jones; Bill Lovelock; Mary Davies; Giuseppina de Giovanni; Margaret Tromans; John Prysor-Jones, offeiriad

**A fu farw'n** Leo Osborn, offeiriad; Buffy Jones; Laura Williams; Anthony Griffiths; Heidi Williams

**Gŵyl goffa** Alan Sollory; Christine Sollory (2); Margaret Thrall, offeiriad (2); Pam Odam, diacon (3); Ian David Eyre

## Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Ar y clawr ceir rhan o'r llun "Y Winllan Werdd" gan Vincent van Gogh (1853–1890) o gasgliadau Amgueddfa Kröller-Müller yn Otterloyn yr Iseldiroedd.

# *Cefnogaeth*

**Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.**

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswllt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

**Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.**

## Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor
## The Cathedral & Metropolitical Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru
**Y Parchedicaf Andrew T. G. John**
Bishop & Archbishop of Wales
**The Most Revd Andrew T. G. John**

Is-Ddeon | Sub-Dean
**Canon Siôn B. E. Rhys Evans**
sionrhysevans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol
Canon for Congregational Life
**Canon Tracy Jones**
tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Darpar Gaplan Prifysgol a Chymuned | University & Community Chaplain Designate
**Y Parchg | The Revd Neville Naidoo**

Is-Ganon | Minor Canon
**Y Parchg | The Revd Josie Godfrey**
josiegodfrey@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music
**Joe Cooper**
joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist
**Martin Brown**
martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos
**Simon Taylor**
simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer
**Kelly Edwards**
kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Litwrgi | Liturgy Administrator
**Sam Jones**
samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus
**Canon David Thomas Morris**
davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws | Canon Emeritus
**Canon Angela Williams**

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan
Members of the Cathedral's College of Priests
**Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor- Jones, y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof. Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter Kaye**

Darllenydd | Reader
**Elma Taylor**

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect
**Simon Malam**

Rhif elusen | Charity number 1158340